# CYFLAWNDER BYWYD

## Llythyr Bugeiliol at Deulu Asaph oddi wrth Esgob Llanelwy

Mawrth 2021

Rwy’n meddwl fy mod wedi sôn o’r blaen mai’r adnod o’r Beibl rwy’n dal i ddod yn ôl ati fel fy ffefryn yw Ioan, Pennod 10, adnod 10. “Yr wyf fi wedi dod er mwyn i ddynion gael bywyd, a’i gael yn ei holl gyflawnder.” I mi, mae’r daith o ffydd gyda Duw yn gallu dod â llawenydd, gwydnwch, heddwch, gobaith a nerth. Mae’n flaendal yn y bywyd hwn o dynged dragwyddol, sy’n dod nid o fy ffyddlondeb i (sy’n eithaf bratiog) ond gan waith hael Duw ynof i. Does dim rhaid i ni gael hyn a hyn o farciau mewn daioni er mwyn cyrraedd y nefoedd – “ond rhoi yn rhad y mae Duw, rhoi bywyd tragwyddol yng Nghrist Iesu ein Harglwydd” (Rhufeiniaid 6.23). Wedi dileu'r ddyled o bechod a dinistr trwy’i farwolaeth a’i atgyfodiad, mae Iesu’n agor y ffordd i ni gofleidio bywyd tragwyddol trwy ffydd. Ond mae yna ragor, fodd bynnag, oherwydd rydym ni wedi’n galw i ddarganfod llawnder y bywyd hwn nid yn unig yn y nefoedd, ond yn y bywyd hwn, i roi enw arall iddo, yw sancteiddrwydd.

Ysgrifennodd St Irenaeus, un o athrawon mawr cynharaf yr Eglwys yn y cenedlaethau ar ôl yr apostolion: “Oherwydd mae gogoniant Duw yn fod dynol byw; ac mae bywyd dyn yn cynnwys gweld Duw." Roedd yn sôn am Iesu, a hefyd am y ffordd y mae cadw Duw yn ein golwg mewn bywyd y byddwn ni pob amser yn barod i newid "o ogoniant i ogoniant" (2 Corinthiaid 3.18). Ysgrifennodd Carl Jung, y seico-dadansoddwr o’r ugeinfed ganrif, "Mae’r hwn sy'n edrych y tu allan, yn breuddwydio; mae’r hwn sy'n edrych y tu mewn yn deffro.", a'r gwir yma – y dylem ni fod yn agored i Dduw yn ein bywydau, yn ein calonnau, i gychwyn ar yr hyn sydd wedi’i galw y daith fewnol – sy’n rhoi genedigaeth i’r bywyd tragwyddol mae Iesu’n sôn amdano. “Yr wyt yn cadw mewn heddwch perffaith y sawl sydd â’i feddylfryd arnat.” (Eseia 26:3)

Rwyf wedi bod yn darllen llythyrau Nelson Mandela’n ddiweddar, ac mae un darn sy’n taro tant gyda mi’n arbennig:

> "Wrth farnu'n cynnydd fel unigolion, rydym yn tueddu i ganolbwyntio ar ffactorau allanol megis lle cymdeithasol rhywun, dylanwad a phoblogrwydd, cyfoeth a safon o addysg. Mae'n rhain, wrth gwrs, yn bwysig.... Ond gallai'r ffactorau mewnol fod hyd yn oed yn fwy hanfodol wrth asesu datblygiad un fel bod dynol. Gonestrwydd, di-dwylledd, symlrwydd, gostyngeiddrwydd, haelioni pur, diffyg balchder, parodrwydd i wasanaethu eraill – rhinweddau sydd yn hawdd o fewn cyrraedd pob enaid – yw'r sylfaen o fywyd ysbrydol rhywun. Mae datblygiad mewn materion o'r natur hwn y tu hwnt i amgyffred person heb hunanholi o ddifrif, heb adnabod eich hunain, eich gwendidau a chamgymeriadau. … Peidiwch byth ag anghofio mai sant yw pechadur sy'n dal i ymdrechu."

Mae'n fy atgoffa o un o'm hoff storïau yng ngwaith C S Lewis, The Great Divorce. Yn y llyfr, mae'r arwr yn breuddwydio ei fod yn cael ei gario i fyny at giât y nefoedd. Tra mae yno, mae gorymdaith fawr yn ymgasglu, yr holl angylion a'r thrwmpedau a'r corau'n canu. Yn y canol, merch ddisglair a brenhinol, y Forwyn Fair ei hunan yn ôl rhagdybiaeth yr awdur. Wrth holi angel wrth ei ymyl yn y dorf, mae'n cael yr ateb: "Na, ei henw hi yw Sarah Smith, ac mae'n bwy ar Golder's Green.... hi yw un o'r rhai mawr yn y nefoedd." Mae'n troi allan fod Sarah wedi dod y person yr oedd Duw eisiau iddi fod oherwydd ei bod yn caniatau i Dduw weithio trwyddi - daeth yn ffigwr mamol i'r holl blant mewn angen, daeth yn ganolbwynt yn ei chymuned am ei charedigrwydd a chariad, bu'n byw ei bywyd i'r eithaf a chafodd ei gweddnewid gan lawenydd.

Mae yna adnodd arall rwy'n meddwl amdano y Llyfr y proffwyd Eseciel (36.26), ble mae Duw yn sôn am ei fwriad dros bobl Dduw. "Rhof i chwi galon newydd, a bydd ysbryd newydd ynoch; tynnaf allan ohonoch y galon garreg, a rhof i chwi galon gig."

Nid yw mawredd yn Nheyrnas Nef yn dibynnu ar eich cyflawniadau yn y byd, mae'n dibynnu y byddwch chi'n tyfu i fod y person hwnnw o gariad a sancteiddrwydd mae Duw yn ei fwriadu ar eich cyfer chi. Mae'r Grawys yn wir yn Wanwyn yr Enaid, oherwydd mae'n galw arnom i agor ein hunain i nerth gweddnewidiol Duw yn ein calonnau, i gymryd y daith fewnol. +JL